Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG*

## *10.00 AM DYDD GWENER, 26 MAWRTH 2021*

***O Bell Trwy Teams***

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol *(Tudalennau 5 - 14)*

5. Craffu Cyn Penderfynu
   - Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

6. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

7. Mynediad i gyfarfodydd
   Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

**Rhan 2**

8. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu
Dewis eitemau preifat priodol o agenda cyn craffu Bwrdd y Cabinet (Adroddiadau Bwrdd y Cabinet yn amgaeedig ar gyfer yr aelodau craffu).

**K.Jones**
**<u>Prif Weithredwr</u>**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Gwener, 19 Mawrth 2021**

**<u>Aelodaeth y Pwyllgor:</u>**

**Cadeirydd:** **S.M.Penry**

**Is-gadeirydd:** **R.W.Wood**

**Cynghorwyr:** A.R.Aubrey, C.Galsworthy, D.Keogh, A.McGrath, C.J.Jones, W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale, S.A.Knoyle a/ac S.Jones

**<u>Nodiadau:</u>**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn*

*agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG**

**(O Bell Trwy Teams)**

**<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Gwener, 22 Ionawr 2021</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | J.Hurley, A.McGrath, C.J.Jones, W.F.Griffiths a/ac J.Hale |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, P. Jackson, M.Roberts, N.Headon a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave |

1. **<u>CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD</u>**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi helpu a darparu cefnogaeth yn ystod y llifogydd diweddar yn ward Sgiwen y Fwrdeistref Sirol

2. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 22 Gorffennaf 2020
- 20 Tachwedd 2020

3. **<u>ISADEILEDD CERBYDAU TRYDAN CASTELL-NEDD PORT TALBOT, CYNLLUNIAU GWEITHREDU A THROSOLWG O'R STRATEGAETH GWEFRU CYHOEDDUS EHANGACH YN Y FWRDEISTREF SIROL</u>**

Cyflwynwyd Isadeiledd Cerbydau Trydan Castell-nedd Port Talbot i'r pwyllgor, a oedd hefyd yn cynnwys y cynlluniau gweithredu a throsolwg o'r strategaeth gwefru cyhoeddus ehangach yn y Fwrdeistref Sirol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch capasiti cerbydau trwm y cerbydlu. Dywedodd swyddogion fod y dyfodol carbon isel yn ansicr o ran

trafnidiaeth drom, ond roedd cerbydau hydrogen a/neu gerbydau trydan batri yn bosibilrwydd dichonadwy; roedd y rhan hon o'r farchnad yn dal i esblygu. Nodwyd bod y diwydiant wedi bod yn canolbwyntio ar gerbydau trydanol batri ar hyn o bryd, a oedd bellach ar gael mewn ceir a faniau ysgafn, a bod faniau a cherbydau mwy hefyd yn dod ar gael yn hwylus.  Hysbyswyd yr aelodau bod ychydig o gerbydau casglu sbwriel trydan wedi bod ar werth yn ddiweddar a bod y cyngor wedi dechrau treialu'r cerbyd yn y Fwrdeistref Sirol am y tridiau diwethaf; roedd y cerbyd wedi cwblhau sifft lawn yn llwyddiannus, a phan gafodd ei ddychwelyd i'r iard roedd ganddo 17% o gapasiti ar ôl ynddo. Ychwanegwyd bod gan y cerbydau hyn tua 1 tunnell o fatris ynddynt. Soniodd swyddogion eu bod ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau i ddad-garboneiddio cerbydlu'r cyngor yn unol â thargedau'r Llywodraeth.

Gyda'r niferoedd cynyddol o gerbydau trydan, gofynnodd yr aelodau pam nad oedd y cyngor yn ystyried y gwefrwyr cyflym yn hytrach na'r gwefrwyr 7kW. Esboniwyd bod y rhan fwyaf o gerbydau'n cael eu dychwelyd yn y prynhawn a'u bod ar yr iard dros nos, felly nid oedd angen eu gwefru'n gyflym; Roedd swyddogion hefyd wedi monitro'r defnydd o'r cerbydau ac roedd y rhan fwyaf o'r faniau'n teithio tua 110/115 milltir, gydag ychydig iawn ohonynt yn teithio dros y pellter hwnnw. Nodwyd, pan ddychwelodd y cerbydau yn y prynhawn, fod ganddynt ddigon o amser i wefru; roedd y gwefrwyr nad oeddent yn gyflym yn well ar gyfer hirhoedledd y batris, ond byddai gwefrwyr cyflym yn diraddio'r batris yn gyflymach. Dywedodd swyddogion na fyddai gwefru dros gyfnod hwy yn broblem ar hyn o bryd; fodd bynnag, nodwyd y bydd gwefrwyr cyflym ar gael (gwefrydd cyflym 50kW) a fyddai'n gwefru cerbydau hyd at 80% o'u capasiti o fewn tua 30 munud, ond ni fyddai hyn yn cael ei ddefnyddio fel mecanwaith gwefru safonol ar gyfer y cerbydlu oherwydd y rhesymau a amlygwyd.

O ystyried yr ardal y mae Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ei gwasanaethu, gofynnwyd a fydd y cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid strategol fel Tai Tarian, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân i sicrhau y byddai uchafswm y pwyntiau gwefru’n cael eu sicrhau yn y Fwrdeistref Sirol. Nodwyd bod cydweithwyr rhanbarthol y cyngor wrthi'n comisiynu ymgynghorwyr, fel rhan o brosiect y Fargen Ddinesig, i helpu gyda'r cynllun strategol; wrth wneud hynny, byddent yn gweithio gyda'r brifysgol a bydd angen iddynt ymgynghori â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, megis yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, i sicrhau eu bod yn rhan o'r agenda hwnnw.

Ychwanegwyd y byddai angen eu hisadeiledd eu hunain ar yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn eu depos a'u gorsafoedd mwy na thebyg, oherwydd maint eu cerbydlu. Soniodd swyddogion, yn nhermau cynllunio, wrth i ddeddfwriaeth symud ymlaen, ei bod yn bosib y bydd yn dod yn ofyniad cynllunio o fewn datblygiadau preswyl newydd i gynnwys cyfleusterau gwefru cyhoeddus o fewn yr ystadau adeiladu newydd; mae’n debyg y bydd gan y rhan fwyaf o dai a gaiff eu datblygu yn y dyfodol fannau gwefru trydan safonol ar gyfer yr eiddo preswyl. Cadarnhawyd ei fod yn ddarn mawr o waith yr oedd angen ymagwedd ranbarthol arno, fel bod lleoliadau'r mannau gwefru a'r pellteroedd rhyngddynt yn addas; bydd llawer o heriau o ran isadeiledd a chyflenwadau pŵer, ond byddai hyn yn rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb.

Gofynnwyd a fydd angen i'r cyngor brynu offer a allai fod yn ofynnol os yw'r cerbydau'n rhedeg allan o fatri er mwyn caniatáu iddynt ddychwelyd i'w depo. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn ystyried prynu pecynnau gwefru a fydd yn plygio i mewn i unrhyw gerbyd ac yn rhoi digon o bŵer iddynt wefru am tua 10-15 munud i'w hwyluso i ddychwelyd i'r depo.

Yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, nodwyd mai'r bwriad oedd archwilio'r cyfle i agor y mannau gwefru i'w defnyddio gan y cyhoedd, y gellid eu gweithredu ar sail adennill costau; Gofynnodd yr aelodau os nad oedd y gwefrwyr cyflym wedi eu gosod, a fyddai'n ddichonadwy ac a fyddai'r cyhoedd yn dewis defnyddio'r cyfleusterau gwefru gyda'r gwefrwyr nad ydynt yn gyflym gan y byddai'n cymryd mwy o amser i wefru eu cerbydau. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn ymwybodol o'r mater posib hwn, ond roedd hyn yn rhywbeth a fyddai'n ffocws yn y dyfodol; roedd yr adroddiad yn seiliedig ar y cerbydlu a'u defnydd gan mai dyma'r hyn yr oedd swyddogion yn edrych arno ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai gwefrwyr cyflym ar gael, ond byddai llawer o ffactorau i'w hystyried gan gynnwys beth oedd y gofynion a faint o bŵer oedd ar gael ar hyn o bryd yn y Ceiau. Byddai adroddiadau diweddaru pellach yn cael eu darparu yn y dyfodol unwaith y byddai'r pethau sylfaenol wedi'u gosod ac roedd yr isadeiledd ar waith. Rhan o'r cynllun hirdymor oedd rhoi'r cyfle, fel rhan o'r isadeiledd a osodwyd, i staff wefru eu cerbydau hefyd.

Hysbyswyd yr Aelodau mai Rheolwr Cerbydlu'r cyngor oedd cadeirydd Grŵp Cerbydlu Sector Cyhoeddus Cymru, lle cynrychiolwyd y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu ac eraill; gan ei fod yn rhan o'r grŵp hwnnw, roedd y cadeirydd hefyd wedi gallu gweithio

gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar sut i newid cerbydlu cyngor yn rhai allyriadau isel dros y 10 mlynedd nesaf.

Gofynnwyd a oedd swyddogion wedi ystyried gwrthbwyso gwefru trwy'r nos er mwyn cael y cyfraddau rhataf, ac a oedd yn opsiwn uwchraddio adeiladau presennol sy'n eiddo i'r cyngor gyda phaneli solar er mwyn eu defnyddio i dynnu pŵer at ddibenion gwefru. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith eu bod yn edrych ar isadeileddau gwyrdd eraill i gefnogi gwefru yn yr hybiau; roedd nifer o adeiladau o amgylch y Fwrdeistref Sirol a allai fod yn addas. Roedd swyddogion yn gweithio gyda chymunedau'r cymoedd a mudiadau gwirfoddol i nodi cyfleoedd lle gellid gosod hybiau. Hysbyswyd yr aelodau bod asedau eiddo'r cyngor hefyd yn cael eu hadolygu i benderfynu ym mhle y gellid rhoi cymwysterau gwyrdd ar waith er mwyn ychwanegu at y grid fel rhan o strategaeth ynni gwyrdd.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 4. **YMGYNGHORI AR GYNIGION CYLLIDEBOL STRYDLUN A PHEIRIANNEG 2021/22**

Derbyniwyd trosolwg o gynigion cyllidebol drafft Gofal Stryd a Pheirianneg a Thrafnidiaeth 2021/2022, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Hysbyswyd yr aelodau nad oedd unrhyw doriadau arfaethedig mewn cyllidebau ar gyfer yr adrannau Gofal Stryd na Thrafnidiaeth a Pheirianneg yn 2021/22.

Nododd yr adroddiad fod pwysau cyllidebol o £400k ar Wasanaethau Gwastraff; Rhoddodd swyddogion fanylion am y pwysau penodol a oedd yn cynnwys:

- Gostyngiad o £1 miliwn yn y Grant Gwastraff Cynaliadwy Iedled Cymru; roedd y gostyngiad hwn wedi bod yn mynd rhagddo dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn seiliedig ar gyfran Cyngor Castell-nedd Port Talbot o'r arian, roedd pwysau o £45k mewn perthynas â'r toriad hwn;
- Yr angen i aildendro'r contract rheoli ar gyfer y Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu; roedd y contract wedi bod ar waith ers peth amser, a bydd y costau'n cynyddu uwchlaw chwyddiant o ran 'dal i fyny', yn dilyn cynnydd penodol dros oes y contract, ynghyd â chostau uwch sy'n gysylltiedig â chynyddu ailgylchu a chompostio i'r eithaf. Nododd yr adroddiad fod £250k wedi'i glustnodi yn hyn o beth;

- Roedd diffyg cyffredinol pellach yn y gyllideb rheoli gwastraff a oedd yn deillio o ostyngiad cenedlaethol parhaol mewn incwm ar gyfer y rhan fwyaf o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu, y dyrannwyd £105k iddynt.

O ran Priffyrdd a Gofal Stryd, nodwyd bod pwysau cyllidebol o £350k wedi'i nodi a oedd yn gwneud lwfansau ar gyfer y canlynol:

- Effeithiwyd ar incwm gwastraff masnach gan gychwyniad COVID-19 ac er y byddai llawer o'r gostyngiad yn digwydd dros dro ac y byddai’n cynyddu unwaith eto maes o law, roedd rhywfaint o ostyngiad cyffredinol yn debygol o fod yn barhaol; disgwylid, o leiaf, na fydd modd cyfalwni’r cynnydd chwyddiant arferol ar y gyllideb incwm gwastraff masnach, gan arwain at bwysau, felly roedd £13k wedi'i glustnodi ar gyfer hyn;
- Roedd darpariaeth gwasanaethau ailgylchu a chyfranogiad wedi ehangu a bu galw cynyddol am offer ailgylchu gwastraff cartref ychwanegol parhaus a'r danfoniadau cysylltiedig; Clustnodwyd £36k ar gyfer y danfoniadau ychwanegol, a oedd yn cynnwys aelod ychwanegol o staff a fan ychwanegol i wneud y danfoniadau hynny;
- Roedd angen cynyddu'r cyllidebau gwaith refeniw ar gyfer cynnal a chadw palmentydd ffyrdd a throedffyrdd ar gyfer gwaith ad-hoc ac atgyweiriadau cyffredinol, lle'r oedd £88k wedi'i glustnodi; Mae cynnydd chwyddiannol wedi'i gynnwys yn y gyllideb a fyddai'n cwmpasu adnoddau fel staffio, fodd bynnag roedd angen cyllideb ychwanegol ar gyfer deunyddiau penodol gan fod prisiau'r deunyddiau hyn yn cynyddu'n sylweddol fwy na'r cynnydd chwyddiannol;
- Roedd angen cynyddu'r gyllideb adnewyddu marciau ffyrdd er mwyn hwyluso rhaglen adnewyddu bum mlynedd, yn dilyn dadansoddiad manwl o'r asedau; pe bai'r cyngor am hwyluso'r rhaglen hon ar draws y Fwrdeistref Sirol roedd angen gwella'r gyllideb £30k i ddarparu ar gyfer hynny;
- Nododd swyddogion fod rhai adeileddau cefn gwlad mawr, hen draphontydd er enghraifft, nas mabwysiadwyd gan briffyrdd ac a oedd wedi cwympo y tu allan i'r drefn arolygu gyfnodol reolaidd yn y gorffennol; roedd angen cywiro hyn, felly roedd £20k wedi'i glustnodi ar gyfer hyn;
- Roedd angen grŵp mân waith draenio ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â'r mân broblemau draenio niferus, ôl-groniad o broblemau a gofynion gwasanaeth cysylltiedig, gan gynnwys

draeniau wedi'u blocio a draeniau wedi'u torri etc. Dywedwyd bod llifogydd yn fater proffil uchel a oedd yn peri pryder sylweddol i'r cyhoedd, aelodau lleol a'r cyngor, yn enwedig o ystyried y cynnydd yn nifer y llifogydd a'r difrod cysylltiedig ar draws y fwrdeistref sirol;
- Roedd cyllideb ychwanegol o £10k wedi'i chlustnodi ar gyfer bagiau tywod ychwanegol a chostau wrth gefn i hwyluso cymorth ychwanegol ar gyfer ardaloedd lle'r oedd problemau llifogydd.

Mewn perthynas â Chanol Tref Port Talbot, nodwyd bod pwysau ychwanegol i'w nodi, er mwyn rheoli'r gwaith dyddiol o godi a gostwng y bolardiau er mwyn atal cerbydau rhag mynd i barth cerddwyr canol y dref yn ddifeddwl; byddai cwmni diogelwch yn cael ei gyflogi i weithredu'r bolardiau drwy gydol y flwyddyn, yn y bore a'r prynhawn.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod pwysau'n gysylltiedig â Gorsaf Fysus Port Talbot, a ddyrannwyd i'r Adran Ystadau; roedd y pwysau'n ymwneud â'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â Gorsaf Fysus Port Talbot a'r cyfleusterau toiledau a'u perthynas â'r gweithredwyr bysus ynghylch codi tâl am ddefnyddio'r orsaf.

Hysbyswyd yr aelodau bod y pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar incwm parcio ceir a bod nifer yr ymwelwyr hefyd wedi gostwng yng Nghanol y Trefi; adlewyrchwyd hyn yn y pwysau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Roedd swyddogion yn gobeithio, wrth gyflwyno'r brechlyn, y bydd y sefyllfa'n gwella ond serch hynny rhagwelwyd y bydd ffrydiau incwm yn parhau i gael eu heffeithio yn y maes gwasanaeth hwn yn ystod 2021/22.

Nodwyd bod y Canghellor wedi cyhoeddi'n flaenorol y bydd yr hawl i ddefnyddio diesel coch yn dod i ben o 2022; roedd gan y cyngor nifer o gerbydau Gofal Strydoedd yn ogystal â darnau eraill o beiriannau a oedd yn defnyddio disel coch, felly bydd hyn yn cael effaith gynyddol ac yn ychwanegu pwysau o £48k. Ychwanegwyd na fyddai'r cyngor yn adennill y costau treth tanwydd yn y dyfodol oherwydd hyn.

Hysbyswyd y pwyllgor am rai o'r pwysau cyllidebol y cynigir eu talu o gronfeydd penodol wrth gefn:

- Adnoddau ychwanegol ym maes caffael – Bydd gwasanaethau gofal strydoedd a gwasanaethau eraill a gaiff eu monitro gan y Pwyllgor Craffu Strydlun a Pheirianneg yn un o fuddiolwyr yr adnoddau ychwanegol ym maes caffael; gan fod angen llawer o

gymorth ar y meysydd gwasanaeth gan Is-adran Caffael y cyngor, a oedd ag adnoddau cyfyngedig ar hyn o bryd. Ar yr enghraifft a ddarparwyd oedd adnoddau'r Orsaf Drosglwyddo yn Nhwyni Crymlyn; roedd nifer o gontractau yr oedd angen eu trosglwyddo i brosesau a gweithdrefnau'r cyngor;

- Cynllun peilot casgliadau Cynnyrch Hylendid Amsugnol – roedd disgwyl i'r peilot casgliadau gael ei gyflwyno yn ddiweddarach eleni ac yn amodol ar ddarparu'r cerbydau, a oedd wedi'u harchebu ar hyn o bryd; bydd yr arian yn helpu i gyflwyno'r broses hon;
- Arolwg cyfansawdd gwastraff untro – trefnwyd adolygiad o Strategaeth Gwastraff y cyngor ar gyfer 2022 i sicrhau bod y cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed o 70% yn 2024/25; fel rhan o hyn, roedd swyddogion yn bwriadu cynnal arolwg cyfansawdd arall ac edrych ar gyfranogiad hefyd os yw'n bosib, er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i aelodau fel rhan o'r trafodaethau yn y broses adolygu;
- Costau TG Priffyrdd – nodwyd bod hon yn gost untro i Is-adran Rheoli Datblygiad Priffyrdd y cyngor; roedd yn gysylltiedig â'r swyddogaethau newydd ar gyfer y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd, i brynu modelau meddalwedd i alluogi gorfodi, apeliadau ac arolygiadau fel rhan o system iDox y cyngor.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn manylu ar y ddwy strategaeth cynhyrchu incwm corfforaethol a allai fod â goblygiadau i wasanaethau a oruchwylir gan y Pwyllgor Craffu Strydlun a Pheirianneg; un ohonynt oedd y bydd galwadau ffôn y Ganolfan Alwadau yn cael eu heffeithio, er enghraifft preswylwyr yn galw i gael mynediad at Wasanaethau Gofal Strydoedd a Pharcio. Yr ail bwynt a amlygwyd oedd y pwysau o ran hysbysebu a noddi; bydd Adran yr Amgylchedd yn ymwneud â'r gweithgor corfforaethol ar gynhyrchu incwm, fodd bynnag, yn benodol ar gyfer yr adran, bydd yn gysylltiedig ag asedau priffyrdd a lle gellid cyfrannu a/neu gynhyrchu incwm wrth symud ymlaen.

Mynegodd yr aelodau eu pryderon ynghylch faint o finiau gwastraff bwyd sy'n cael eu difrodi ac os edrychwyd ymhellach ar y mater hwn, y gellid arbed arian gan na fyddai angen eu hadnewyddu. Soniodd swyddogion fod 600 tunnell yn fwy o wastraff bwyd wedi’i ailgylchu y llynedd gan fod mwy o bobl yn ailgylchu a bod mwy o wastraff bwyd yn cael ei gynhyrchu; roedd mwy o bobl yn cymryd rhan mewn ailgylchu gwastraff bwyd ac roedd angen dau fin ar breswylwyr yn

hytrach nag un oherwydd y meintiau. Nodwyd bod y ffactorau hyn, ynghyd â'r mater o ehangu gwasanaethau, i gyd wedi cyfrannu at bryderon yr aelodau. Roedd swyddogion hefyd yn cydnabod y bu rhai problemau gyda thoriadau, a'u bod yn edrych ar ddyluniad y biniau gwastraff bwyd i'w gwneud yn fwy cadarn. Ychwanegwyd bod goruchwylwyr yn ceisio sicrhau bod eu staff mor ddiwyd ag y gallent fod, o ran rhoi'r biniau yn ôl yn ofalus.

Mewn perthynas â rheoli'r bolard yng Nghanol Tref Port Talbot, cwestiynodd yr aelodau'r angen am folardiau yn Heol yr Orsaf gan y gellid cael mynediad i'r stryd hon drwy'r rhwystr diogelwch wrth ymyl Canolfan Ddinesig Port Talbot. Gofynnodd yr aelodau hefyd a ellid gwneud y gwaith hwn drwy grant i'r Ardal Gwella Busnes (AGB) yn hytrach na chontractio cwmni diogelwch. Esboniodd swyddogion fod angen ffordd o gael mynediad ac allanfa frys pe bai digwyddiad yng Nghanol y Dref pan godwyd y bolardiau, a dyna pam y byddai'r ardal wrth ymyl Canolfan Ddinesig Port Talbot yn cael ei gadael heb folardiau. Dywedwyd bod dyfynbris ffurfiol wedi'i dderbyn gan y cwmni diogelwch a oedd yn rheoli'r bolardiau yng Nghanol Tref Castell-nedd; roedd y dyfynbris yn cyfeirio at y costau blynyddol ac roedd angen cwblhau atgyweiriadau ar folardiau presennol.

Gofynnodd yr aelodau pa waith a wnaed i sicrhau'r pwyllgor bod ffigurau'r gyllideb ar gyfer y meysydd gwasanaeth wedi'u rhagweld yn gywir. Esboniodd swyddogion fod amcangyfrifon ffurfiol wedi'u cwblhau yn seiliedig ar wybodaeth, ond eleni roedd llawer o'r amcangyfrifon yn seiliedig ar yr hyn a brofwyd drwy'r pandemig. O ran y gyllideb parcio ceir, tynnwyd sylw at y ffaith bod swyddogion wedi dadansoddi hyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a chyfrifwyr, a chanfuwyd ei bod yn anodd iawn mesur y nifer a fydd yn manteisio arno wrth symud ymlaen, ond roedd gobeithion y byddai sefyllfaoedd yn newid wrth i'r Gwanwyn/Haf nesáu; roedd rhai pryderon o hyd ynghylch adennill incwm parcio a byddai'n cael ei fonitro'n ofalus iawn yn y dyfodol. Ychwanegwyd bod Glan Môr Aberafan wedi cynhyrchu mwy o arian eleni gan fod pobl wedi bod yn teithio i wneud ymarfer corff yn lleol. O ran y maes Gofal Strydoedd, nodwyd bod llawer o'r eitemau'n gywir cyfrifadwy, er enghraifft roedd swyddogion yn gwybod y costau ar gyfer y cerbydau a'r timau; roedd rhai elfennau yn amrywio, er enghraifft yr incwm ar gyfer deunyddiau y gellir eu hailgylchu, lle bu'n rhaid i swyddogion edrych yn ôl ar ddata a thueddiadau hanesyddol i wneud amcangyfrif. Ychwanegwyd y bydd amrywiadau drwy gydol y flwyddyn ac ymdrinnir â hwy o fewn treuliau annisgwyl y gyllideb.

Yn dilyn craffu ar fanylion y gyllideb yn yr adroddiad, atgoffwyd yr aelodau y byddai eu sylwadau o'r cyfarfod hwn yn rhan o'r ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar gyfer cyllideb 2021/22. Gofynnwyd iddynt, os oedd ganddynt unrhyw gynigion eraill ar gyfer arbedion cyllidebol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad amgaeedig, eu bod yn cysylltu â swyddogion i'w hystyried.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2020/21**

Nodwyd Blaenraglen Waith Craffu Strydlun a Pheirianneg 2020/21.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag